**<u>Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 18-00(min)</u>**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2000 |
| **Amser:** | 9.00am hyd 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Yn bresennol* | |
| Grenville Jackson | Cyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru |
| Einir Burrowes | Cyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru |
| Peter Rees | Coleg Sir Gâr |
| John Harries | Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru |
| Yr Athro Terry Marsden | Ymgynghorydd Arbenigol |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie (eitemau 2 a 5) | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth |
| Mike Dunn (eitem 2) | Pennaeth, Adain Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Rory O’Sullivan (eitemau 2 a 5) | Pennaeth, Adain Polisi Amaethyddol |
| Simon Hewitt (eitem 4) | Prif Warchodwr, Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Huw Davies (eitem 4) | Swyddog Polisi, Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Tony Edwards (eitem 5) | Prif Swyddog Milfeddygol Cynorthwyol Cymru |
| Joy Whinney (eitem 5) | Cyfarwyddwraig Cymru, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |

| | |
|---|---|
| Gareth Jones (eitem 6) | Adain Reoli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a chyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Huw Lewis. Datganodd Peter Rogers fod iddo fudd fel ffermwr, a Mick Bates fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ffermwr a'i fod hefyd yn derbyn Grant Coetir Ffermydd. Datganodd Jocelyn Davies fod iddi fudd dan eitem 4 gan fod ei mab wedi dechrau busnes cynnyrch coed yn ddiweddar.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** – ARD 18-00(p1)

2.1 Nid oedd gan y Gweinidog unrhyw beth i'w ychwanegu at ei adroddiad a gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau. Codwyd y pwyntiau a ganlyn:

- croesawyd y cymorth i ladd-dai bychain a gofynnwyd i'r Gweinidog pa bryd y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno. Dywedodd y disgwylid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyhoeddi papur ymgynghorol ym mis Ionawr ac y byddai'r cynllun yn dod i rym ar 1 Ebrill 2001;
- yn dilyn ei gyfarfod gyda Chlybiau'r Ffermwyr Ieuainc (CFfI) gofynnwyd i'r Gweinidog sut y gellid denu pobl ifanc i'r diwydiant ffermio ac a oedd pwnc y cynllun dechrau ffermio wedi ei godi. Dywedodd y Gweinidog fod agwedd y CFfI wedi bod yn gadarnhaol iawn a bod pobl ifanc a oedd eisiau ffermio yn awyddus i ystyried dulliau gweithredu newydd. Yr oedd wedi egluro safbwynt y Cabinet yngln â chynllun dechrau ffermio ac yr oedd y CFfI wedi derbyn bod ffyrdd eraill o ddarparu cymorth. Fel yr addawyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd byddai papur yn trafod cymorth i bobl ifanc sy'n awyddus i ddechrau ffermio yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd;
- nodwyd eglurhad y Gweinidog ar gyllido Tir Gofal. Yr oedd yn bwysig cael mwy o bobl i ymuno â Thir Gofal er mwyn iddo allu cyflawni ei botensial economaidd a chymdeithasol llawn. Awgrymodd y Gweinidog y byddai'r Pwyllgor o bosibl yn hoffi edrych ar drefniadau targedu ac effeithiolrwydd y cynllun yn y Flwyddyn Newydd;
- yr oedd llawer o ffermwyr yn methu â manteisio ar y cynllun Tir Gofal. Awgrymwyd y dylid cyflwyno cynlluniau amgylcheddol syml annibynnol, megis cynllun gwrychoedd, fel bod mwy o ffermwyr yn cael cyfle i gymryd rhan. Dywedodd y Gweinidog fod y cynllun Tir Gofal wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd ac na fyddai cyfle i wneud unrhyw newidiadau hyd Ebrill 2001 ar y cynharaf ond gellid edrych ar awgrymiadau ar gyfer gwelliannau bryd hynny.

**Eitem 3: Adolygiad Arallgyfeirio** - ARD 18-00(p2)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Grenville Jackson, Einir Burrowes, Peter Rees a John Harries i'r cyfarfod.

3.2 Eglurodd Grenville Jackson fod y papur wedi ei baratoi yn dilyn ymgynghori rhwng Cyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru a'r sectorau ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch. Eglurodd yn fyr sut y gallai polisïau addysg a hyfforddiant helpu i wella gwaith datblygu gwledig a'r gallu i gystadlu. (Cliciwch yma er mwyn gweld y cyflwyniad.)

3.3 Canmolwyd ansawdd y papur a gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau gan y Pwyllgor.

3.4 Un o brif negeseuon y papur oedd yr angen am ddull gweithredu cwbl integredig ar gyfer addysg a hyfforddiant. Nodai fod angen i bolisïau fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na mythau a dywedai, yng nghyswllt addysg a hyfforddiant amaethyddol, na ddylid caniatáu i rymoedd y farchnad ddylanwadu'n ormodol. Gofynnwyd i'r cyfranwyr egluro'r pwyntiau hyn a rhoi mwy o fanylion:

- dywedodd Grenville Jackson fod y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn sylweddoli bod angen dull gweithredu mwy cydweithredol ac y dylid cydnabod cyrsiau galwedigaethol a chyrsiau analwedigaethol fel ei gilydd. Byddai'r Cyngor Cenedlaethol newydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn helpu i wella'r broses o integreiddio, er enghraifft, drwy ddod â chyllido 6ed dosbarth, hyfforddiant galwedigaethol, a'r sector addysg uwch ac addysg bellach at ei gilydd. Yr oedd yr wybodaeth a oedd ar gael ar hyn o bryd er mwyn cynllunio addysg a darpariaeth hyfforddi yng Nghymru yn wael. Yr oedd Sgiliau Dyfodol Cymru'n darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol ond yr oedd angen gwell ymchwil a thystiolaeth ystadegol o hyd er mwyn ffurfio sylfaen ar gyfer penderfyniadau cynllunio strategol;
- dywedodd Peter Rees ei bod eisoes yn ofynnol i golegau addysg bellach asesu'r marchnadoedd llafur lleol ond bod hyn yn anodd oherwydd prinder gwybodaeth bendant. Gobeithiai y byddai uned sgiliau yn y Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn helpu darparwyr addysg a hyfforddiant i asesu'r anghenion yr oeddent yn ceisio eu diwallu. Ychwanegodd fod canolfannau rhagoriaeth wedi eu gwasgaru'n anghytbwys drwy Gymru gan wneud mynediad yn anodd mewn rhai ardaloedd ac yr oedd y gost o ddarparu hyfforddiant yng Nghymru wledig yn uwch nag mewn ardaloedd trefol. Awgrymodd y gellid dysgu gwersi o'r cynllun peilot Lwfans Cynnal Addysg yn Lloegr er mwyn helpu myfyrwyr â'r costau ychwanegol y maent yn eu hwynebu;
- dywedodd John Harries fod angen dod â'r ddarpariaeth hyfforddiant amaethyddol at ei gilydd mewn llai o ganolfannau a fyddai wedi eu lleoli mewn gwahanol rannau o Gymru wledig a bod angen gwell cyd-drefnu rhwng y canolfannau addysg bellach ac addysg uwch.

3.5 A oedd angen adolygiad llawn o'r hyfforddiant amaethyddol a ddarperid gan y sectorau addysg bellach ac addysg uwch? Sut y gellid annog ffermwyr cyffredin i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant, beth oedd y manteision iddynt a sut y gellid arfarnu gwerth hyfforddiant?

- dywedodd John Harries fod angen amrediad eang o sgiliau er mwyn darparu hyfforddiant amaethyddol ac nad oeddent ar gael mewn canolfannau llai. Fodd bynnag, yr oedd yn rhaid darparu'r cyrsiau yn agos at y farchnad. Yr oedd angen dull gweithredu integredig er mwyn sicrhau cysondeb. Ychwanegodd Peter Rees fod dalgylchoedd Lloegr yn fwy a bod hyn yn

awgrymu fod posibilrwydd y gellid cael nifer llai o ganolfannau, a’r rheini’n fwy o ran maint yng Nghymru;

- dywedodd Einir Burrowes ei bod yn aml yn anodd darparu hyfforddiant i ffermwyr gan eu bod ar wasgar yn ddaearyddol a chan fod ganddynt agwedd annibynnol. Yr oedd y gost o ddarparu hyfforddiant o ganlyniad yn uwch nag mewn ardaloedd trefol. Gellid targedu ffermwyr drwy rwydweithiau a oedd yn bodoli’n barod megis yr undebau a chymdeithasau tir glas. Nid oedd tystiolaeth bendant i awgrymu bod hyfforddiant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cynyddu elw ffermwyr. Y fantais oedd gwell rheolaeth a byddai cyfleu’r neges hon yn annog ffermwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant addas;
- dywedodd Grenville Jackson fod yn rhaid i’r gwaith o ddarparu addysg a hyfforddiant gael ei arwain gan y cwsmer. Yr oedd angen i ffermwyr a busnesau gwledig bychain weld hyfforddiant fel buddsoddiad yn hytrach na chost.

3.6 Yr oedd y papur yn cydnabod bod angen gwella cysylltiadau rhwng y sector addysg bellach a’r sector addysg uwch ond pa arferion da oedd yn bodoli’n barod? Sut y gellid gwella’r ddarpariaeth hyfforddiant mewn ardaloedd gwledig? Yr oedd Canolbarth Cymru wedi cael canlyniadau addysgol da o lefel TGAU hyd lefel gradd ond nid oedd y rhai hynny a oedd yn graddio fel arfer yn dychwelyd i weithio yng Nghymru wledig. Sut y gellid rhoi sylw i hyn?

- dywedodd Einir Burrowes fod Partneriaeth Canolbarth Cymru’n edrych sut y gallai e-ddysgu gyfrannu tuag at y ddarpariaeth hyfforddi. Nid oedd y dechneg yn gweddu i bawb ac ni fyddai dysgwyr yn llwyddo onid oeddent yn awyddus i wneud hynny. Yr oedd angen i e-ddysgwyr gael eu cefnogi gan rwydwaith priodol o diwtoriaid a mentoriaid. Pwysleisiodd yr angen i ddatblygu cyfres newydd o sgiliau ac agweddau er mwyn galluogi pobl yn y sector cyhoeddus i weithio ar draws ffiniau sefydliadol anodd iawn eu symud. Yr oedd y Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant a oedd wedi eu sefydlu yng Ngheredigion wedi gwneud cais i Gronfa Ysgogi Partneriaeth y Cynulliad er mwyn datblygu a gweithredu rhaglen 'Datblygu Sgiliau Partneriaeth’ fel eu cam cyntaf tuag at gynllunio effeithiol;
- dywedodd Peter Rees fod myfyrwyr ar gyrsiau ffermio fel arfer yn gweithio ar fferm ac yn methu â gadael yr ardal neu deithio’n bell. Yr oedd hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt ddilyn cyrsiau lefel uwch. Gallai gwell cynllunio ac integreiddio safleoedd a darpariaethau helpu gyda’r problemau mynediad y mae pobl yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd Coleg Sir Gâr yn darparu rhywfaint o gludiant am ddim ond yr oedd hyn yn gostus;
- dywedodd Grenville Jackson y byddai sefydlu’r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a’r Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yn golygu y gellid datblygu gwell cysylltiadau rhwng y sectorau addysg bellach ac addysg uwch. Yr oedd y ffordd yr oedd prifysgolion yn cael eu hasesu’n golygu nad oeddent yn derbyn unrhyw gredyd am addysg gymunedol. Dylid newid hyn os yw addysg gymunedol i’w hannog. Yn gyffredinol nid oedd cwmnïau bychain yn gweld gwerth mewn gradd ac yr oedd yn anorfod felly bod pobl ifanc a oedd wedi cael addysg dda yn symud i ffwrdd i chwilio am waith. Gallai cynnig mwy o gyrsiau rhyngosod gyda lleoliadau mewn busnesau lleol annog graddedigion i aros yn eu hardaloedd;
- dywedodd John Harries fod cyd-drefnu rhwng y sectorau addysg bellach ac addysg uwch yn hanfodol. Yr oedd cysylltiadau da rhwng Prifysgol Aberystwyth a’r colegau addysg bellach yn

Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a oedd yn caniatáu i fyfyrwyr ymgymryd â chyrsiau addysg uwch drwy'r colegau. Yr oedd hyn yn gweithio'n dda ac yr oedd nifer sylweddol o fyfyrwyr wedi mynd yn eu blaenau i addysg uwch lawn amser. Nid oedd prifysgolion yn derbyn cyllid penodol ar gyfer gweithgareddau megis datblygu cymunedol a byddai gweithgareddau o'r fath yn dod yn ail i ddysgu a gwaith ymchwil oni newidid y trefniadau cyllido.

3.7 Sut y gellid hyrwyddo dysgu gydol oes yng Nghymru wledig? Sut y gellid mynd i'r afael â chost cludiant i fyfyrwyr, a phroblemau eraill a oedd yn ymwneud â mynediad, a pha enghreifftiau o ymarfer da oedd yn bodoli?

- dywedodd Peter Rees fod y Gronfa Fynediad a ddarparwyd gan y Cynulliad yn helpu i wneud mynediad i addysg bellach yn haws. Teimlai y byddai pobl mewn gwaith yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant pe darperid isadeiledd a chyfleoedd priodol;
- dywedodd Grenville Jackson fod costau cludiant yn ychwanegu hyd at 5% at gost contractau hyfforddi mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd y byddai'n darparu enghreifftiau o batrymau mynediad a oedd i'w gweld yng Nghymru.

3.8 Pa gysylltiadau oedd yn bodoli rhwng asiantaethau datblygu economaidd a'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch er mwyn nodi a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y meysydd sydd ar gynnydd yn yr economi wledig megis bwyd-amaeth ac ynni adnewyddadwy?

- dywedodd Grenville Jackson mai dysgu oedd yr allwedd i ddatblygu economaidd a bod yn rhaid i'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, y Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant a'r Awdurdod Datblygu weithio ochr yn ochr. Yr oedd meysydd sydd ar gynnydd yn bwysig ond byddai angen sgiliau newydd yn y sectorau sy'n bodoli'n barod hefyd wrth i dechnoleg newid. Teimlai fod gan Gymru gyfle unigryw i hybu datblygu economaidd gyda'r patrwm a oedd yn datblygu;
- teimlai Peter Rees fod gan Golegau gysylltiadau da gyda'r Awdurdod Datblygu erbyn hyn, ond eu bod yn dibynnu'n aml ar unigolion. Yr oedd rhywfaint o orgyffwrdd ym maes hyfforddiant a chefnogaeth i fusnesau rhwng colegau ac asiantaethau menter. Teimlai ei bod yn bwysig egluro swyddogaethau fel bod cyrff fel yr asiantaethau menter yn nodi anghenion ar sail eu cysylltiadau â busnesau ond yn gadael y gwaith o ddarparu hyfforddiant i'r sector addysg. Er mwyn gwneud i'r patrwm weithio yr oedd angen cysylltiadau agos rhwng y cyrff perthnasol.

3.9 A oedd diffyg sgiliau TGCh datblygedig yn dal datblygu economaidd yn ôl yng Nghymru wledig a beth oedd y ffordd orau o ddarparu sgiliau?

- dywedodd Grenville Jackson fod tystiolaeth glir ar gael a oedd yn dangos bod diffyg sgiliau TGCh datblygedig yn rhwystro datblygiad. Deuid â'r sgiliau hyn i'r ardal o'r tu allan ar hyn o bryd ac yr oedd yn rhaid i Gymru fuddsoddi er mwyn eu datblygu. Enghraifft dda o'r ffordd ymlaen oedd y bwriad i sefydlu parc arloesi a chanolfan hyfforddi gyfunedig yn Aberporth gyda Phrifysgol Aberystwyth. Yr oedd angen canolbwyntio ar fesuryddion perfformiad tymor hir er

mwyn annog y math hwn o ddatblygu sgiliau gan nad oedd unrhyw atebion dros nos;

- nododd John Harries fod gan bobl ifanc a oedd yn gadael yr ysgol y dyddiau hyn well sgiliau TGCh na'r rhai a oedd yn gadael dair blynedd yn ôl. Ar y llaw arall yr oedd y Sefydliad wedi darparu cyrsiau TGCh i weithwyr yr awdurdod lleol ac wedi eu synnu gan y galw;
- dywedodd Peter Rees fod datblygu sgiliau TGCh datblygedig yn gymwys i e-ddysgu o bell.

3.10 Mynegwyd pryder yngln â'r gostyngiad yn y galw am gyrsiau amaethyddol. Sut y gellid gwneud cyrsiau'n fwy atyniadol a chynyddu'r nifer sy'n eu dilyn?

- dywedodd Peter Rees fod angen annog llawer o feibion a merched ffermydd i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant drwy gynnig lwfansau er mwyn gostwng y gost. Gellid targedu'r rhain tuag at fyfyrwyr ffermio i ddechrau, ond yr oedd dadl dros eu cynnig i bob myfyriwr a oedd yn dilyn addysg ôl-16. Dylid marchnata addysg a hyfforddiant mewn ffyrdd mwy blaengar a deniadol;
- dywedodd Grenville Jackson fod y Grp Datblygu Ffermydd wedi nodi prinder sgiliau posibl yn y dyfodol os bydd y patrwm presennol yn parhau, felly yr oedd ehangu hyfforddiant yn hanfodol.

3.11 Diolchodd y Cadeirydd i Grenville Jackson, Einir Burrowes, Peter Rees a John Harries am eu cyfraniadau.

**Eitem 4: Strategaeth Coetiroedd** - ARD 18-00(p3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Simon Hewitt a Huw Davies i'r cyfarfod. Cyflwynwyd braslun o'r papur gan Simon Hewitt. Yna gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau a sylwadau.

4.2 Yr oedd cerdded yn weithgaredd poblogaidd iawn yng Nghymru. Yn dilyn sefydlu'r Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a fyddai ymrwymiad yn cael ei wneud yn y Strategaeth i ganiatáu mynediad i goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol? A allai hyn fod yn ymroddiad parhaol i warchod mynediad yn y dyfodol rhag ofn i goetiroedd gael eu gwerthu i'r sector preifat?

- dywedodd Huw Davies y penderfynwyd, ar ôl ymgynghori yngln â'r Mesur, gwneud mynediad i goedlannau yn wirfoddol. Pan fyddai'r ddarpariaeth ar ymroddiad yn dod i rym byddai'r Comisiwn Coedwigaeth yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog yngln â sut y dylid defnyddio'r hawliau.

4.3 Ychydig o gyfeiriadau oedd yn y Strategaeth at ynni adnewyddadwy, biomas a choedlannau cylchdro byr, yr effaith y gallai coedwigoedd ei gael ar nwyon t gwydr neu annog gwerth ychwanegol i goed Cymru. Awgrymwyd bod angen cryfhau'r rhain:

- dywedodd Simon Hewitt mai amlinelliad o'r Strategaeth oedd y drafft a oedd gerbron y Pwyllgor ac y byddai mwy o fanylion am y meysydd hyn yn y fersiwn terfynol. Amcangyfrifid y gellid cynhyrchu 125 megawatt o drydan yng Nghymru o goed crwn bychain, gweddillion

coedwigoedd a melinau llifio a choedlannau cylchdro byr gan wneud cyfraniad pwysig tuag at ynni adnewyddadwy. Yr oedd y Comisiwn Coedwigaeth yn gwneud gwaith ymchwil i'r cyfraniad y gallai coedwigaeth ei wneud yn y frwydr yn erbyn nwyon t gwydr.

4.4 Yr oedd cyfeiriadau yn y Strategaeth at yr angen i bren o Gymru gystadlu yn y farchnad ryngwladol. Yr oedd Cymru'n mewnforio llawer o goed ond yng Nghymru yr oedd yr amgylchiadau gorau yn y DG ar gyfer cynhyrchu coed o ansawdd da a dylid gwneud mwy o ddefnydd o'r tir gwaelaf. Sut y gellid datblygu agweddau masnachol coed Cymru?

- cytunodd Simon Hewitt fod Cymru'n gallu cynhyrchu coed o ansawdd da ond yr oedd cryfder y bunt, mewnforion rhad a gostyngiad mewn prisiau ym marchnad y byd yn ei gwneud yn anodd iddi gystadlu. Pan oedd y rhan fwyaf o'r cynhyrchwyr coed yn gorfod derbyn pris y byd am eu cynnyrch, yr oedd marchnadoedd lleol â gwerth ychwanegol yn bwysig. Yr oedd nifer o'r rhain yn cael eu datblygu gydag arian Amcan 1.

4.5 Pa mor gytbwys oedd y galw am bren meddal a phren caled ac a oedd unrhyw fanteision i labelu pren fel pren o Gymru?

- dywedodd Simon Hewitt wrth y Pwyllgor fod y Strategaeth yn osgoi'r ddadl begynol yngln â phren meddal a phren caled oherwydd y defnydd cynyddol o systemau gorchudd di-dor a fyddai'n arwain at goetiroedd cymysg. Byddai Cymru felly'n gallu elwa o'r ddau. Yr oedd Coed Cymru wedi dangos manteision posibl y label Gymreig ac yr oedd y Comisiwn Coedwigaeth yn sylweddoli pwysigrwydd labelu er mwyn cael cymaint o enillion ag a oedd yn bosibl.

4.6 Beth oedd y Comisiwn Coedwigaeth yn ei wneud er mwyn datblygu coedwigoedd preifat a thwristiaeth?

- dywedodd Simon Hewitt fod y Comisiwn yn bwriadu datblygu prosiectau twristiaeth yng Nghymru y flwyddyn nesaf cyn gynted ag y byddai'r gwaith o drosglwyddo cyfrifoldebau cyllidol ar gyfer ei waith yng Nghymru i'r Cynulliad wedi ei gwblhau. Ychwanegodd ei fod yn gweithio mewn cysylltiad agos â chwmnïau coedwigaeth yn y sector preifat i'w helpu i ddatblygu eu busnesau.

4.7 Gallai coedwigaeth chwarae rhan bwysig wrth atal llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd. A oedd y Comisiwn wedi trafod y materion hyn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

- Cytunodd Simon Hewitt fod gan goedwigaeth ran bwysig i'w chwarae gan y gallai gau dr allan ac o ganlyniad leihau llif oriau brig. Yr oedd cynllun peilot yn Ne Cymru yn edrych ar goedwigaeth gorlifdiroedd. Gallai coedwigaeth hefyd leihau'r glaw asid sy'n mynd i'r amgylchedd. Ychwanegodd Huw Davies fod y Comisiwn yn gweithio mewn cysylltiad agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd yng nghyswllt cynllunio defnydd tir ac effaith plannu a thorri coed ar lif afonydd.

4.8 Mynegwyd pryder yngln â’r posibilrwydd y byddai melinau llifio BSW yn y Bontnewydd ar Wy yn cael eu cau. Byddai colli’r swyddi’n cael effaith ddifrifol ar yr economi leol.

- dywedodd Simon Hewitt fod angen y dechnoleg ddiweddaraf er mwyn i felinau allu dal eu tir mewn marchnad gystadleuol iawn. Nid oedd cwmnïau melinau yn poeni yngln â lleoliad a byddent yn symud os oedd hynny o fudd iddynt hwy.

4.9 Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu dod â drafft terfynol y Strategaeth i gyfarfod yn y Flwyddyn Newydd. Dylai’r Strategaeth edrych ymlaen at ddefnyddiau newydd ar gyfer coedwigaeth. Gallai coetiroedd wneud cyfraniad pwysig i’r amgylchedd a’r gymuned a helpu i fynd i’r afael ag allgáu cymdeithasol.

4.10 Awgrymwyd y dylai’r Pwyllgor glywed barn perchnogion coedwigoedd preifat y tro nesaf y byddai’n ystyried y Strategaeth. Diolchodd y Cadeirydd i Simon Hewitt a Huw Davies.

**Eitem 5: Adroddiad Phillips** - ARD 18-00(p4)

5.1 Atgoffaodd y Gweinidog y Pwyllgor ei fod wedi cytuno, yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd, i edrych ar y rheolyddion cyfredol ar gyfer iechyd anifeiliaid a’u heffeithiolrwydd.

5.2 Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau a chodwyd y pwyntiau a ganlyn.

5.3 Gofynnwyd i’r Gweinidog amlinellu’r sefyllfa bresennol gydag ymchwil i *Spongiform Encephalopathy* trosglwyddadwy (TSE) a’r posibilrwydd o heintio llaeth.

- dywedodd y Gweinidog mai’r Asiantaeth Safonau Bwyd oedd yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd. Nid oedd y profion a oedd yn cael eu gwneud wedi dangos unrhyw dystiolaeth o BSE mewn defaid na llaeth;
- dywedodd Joy Whinney mai un o’r anawsterau gydag un o’r prosiectau ymchwil cyfredol sy’n ymwneud â BSE mewn defaid, ac sy’n seiliedig ar ddadansoddiad o ymennydd defaid a gasglwyd yn ystod y cyfnod cyn 1992, oedd ei bod yn anodd dehongli’r canlyniadau. Nid oedd yr arbrawf hwn wedi ei gynllunio er mwyn edrych am BSE mewn defaid. Yr oedd angen meini prawf er mwyn gallu arfarnu unrhyw ganlyniadau amwys a allai ymddangos. Nid oedd gwaith ymchwil wedi canfod unrhyw dystiolaeth fod llaeth wedi ei heintio â BSE. Byddai nodyn yn cael ei ddarparu yn datgan a oedd heintiad posibl gwahanol fathau o laeth yn cael ei ystyried. Ychwanegodd Tony Edwards fod profion yn cael eu gwneud er mwyn sefydlu a allai llaeth o wartheg sy’n dioddef o BSE fod wedi ei heintio.

5.4 Beth oedd y rhagolygon ar gyfer datblygu prawf byw ar gyfer BSE?

- dywedodd Huw Brodie wrth y Pwyllgor fod y Weinyddiaeth Amaeth Pysgodfeydd a Bwyd yn

gweithio ar brofion byw. Yr oedd y prif brawf a oedd ar gael ar hyn o bryd yn ymwneud â llygod ac yn cymryd dwy flynedd i'w gwblhau. Ychwanegodd Tony Edwards fod prawf byw yn cael ei ddatblygu yn Unol Daleithiau America ond nid oedd yn ddigon sensitif eto, nac yn debygol o fod yn ddigon sensitif am o leiaf ddwy flynedd.

- dywedodd Joy Whinney fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn pwyso am brawf byw yn enwedig ar gyfer defaid.

5.5 Yr oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn fodlon bod safonau ar dir mawr Ewrop ar gyfer y rheolyddion ar gig eidion yn ddigonol ond beth am y rheolyddion ar waed, gelatin a gwêr?

- dywedodd y Gweinidog fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi croesawu'r rheolyddion y cytunwyd arnynt yn y Cyngor Amaethyddiaeth ym Mrwsel a oedd yn cynnwys gwaharddiad ar gig a blawd esgyrn mewn bwydydd anifeiliaid a gwaharddiad a oedd yn rhwystro gwartheg dros 30 mis rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol;
- dywedodd Joy Whinney fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi argymell y dylid sefydlu rhagofalon a gwahardd defnyddio gwaed, gelatin a gwêr mewn bwydydd anifeiliaid. Ychwanegodd Huw Brodie fod y Cyngor Amaethyddiaeth wedi penderfynu y dylid gwahardd gwaed, gelatin a gwêr o'r holl fwydydd ar gyfer anifeiliaid sy'n cnoi eu cil ac y dylid cael gwared ar y stoc bresennol.

5.6 Yr oedd adolygiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd o'r rheolyddion BSE yn nodi y byddai'r arfer o chwalu gwaed ar dir yn cael ei ailystyried. Beth oedd yr amserlen ar gyfer hyn?

- dywedodd Huw Brodie y darperid cyngor ar gyfer y Gweinidog ar y mater hwn yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf gan ystyried yr arferion cyfredol a safbwyntiau'r Pwyllgor Ymgynghorol *Spongiform Encephalopathy* a'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

5.7 Nid oedd dull dadansoddol o nodi cig sydd wedi ei adfer yn fecanyddol. Pwy oedd yn gyfrifol am ddatblygu prawf?

- dywedodd Tony Edwards fod cig sydd wedi ei adfer yn fecanyddol wedi ei gynnwys yn y rhaglen ymchwil i TSE ac y byddai'n delio gyda hyn yn ei nodyn ar y pwnc.

5.8 Pa wybodaeth oedd ar gael yngln â'r ymchwil i lwybrau heintio?

- awgrymodd Huw Brodie y gallai hyn fod yn fater i'w ystyried yn y cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 24 Ionawr. Cynigodd Tony Edwards y byddai'n darparu crynodeb o'r adolygiad cyfredol o'r ymchwil i TSE, pan fyddai wedi ei gwblhau.

5.9 Yr oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi dweud na ellid llacio'r rheol a oedd yn ymwneud â gwartheg dros 30 mis oed hyd oni fodlonid amodau penodol. Beth oedd yr amodau hyn?

- dywedodd Joy Whinney fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd o'r farn mai Ionawr 2002 fyddai'r dyddiad cynharaf y gellid gwneud penderfyniad i gyhoeddi blwyddyn geni anifeiliaid nad oes rhaid iddynt ymuno â'r cynllun dros 30 mis. Yr amodau yr oedd angen eu bodloni cyn unrhyw benderfyniad o'r fath oedd:
- bod yr epidemig BSE ar drai fel sy'n cael ei ddarogan ar hyn o bryd;
- bod nifer yr achosion o BSE mewn gwartheg wedi eu geni ar ôl 1 Awst 1996 yn unol â'r darogan; a
- bod tystiolaeth o drefniadau adnabod gwartheg dibynadwy y glynir atynt yn ddeddfol; a bod y gwaharddiad ar fwydydd yn dal i gael ei orfodi'n gaeth.

5.10 Gofynasid am fwy o wybodaeth yngln â'r rhaglen i fridio hyrddod a oedd â'r gallu genetig i wrthsefyll clefyd y crafu. A oedd rhaglen debyg ar gyfer gwartheg?

- dywedodd y Gweinidog fod rhaglen i fridio clefyd y crafu allan o'r ddiadell wedi ei chynnig ond nad oedd digon o hyrddod a allai wrthsefyll y clefyd mewn rhai o'r bridiau Cymreig cynhenid. Ychwanegodd Huw Brodie fod canlyniadau proses ymgynghori yn cael eu hystyried. Yr oedd yr ymgynghoriad wedi awgrymu rhaglen yn ymestyn am oddeutu 10 mlynedd er mwyn dileu clefyd y crafu o'r ddiadell. Nid oedd unrhyw gynigion o'r fath ar gyfer gwartheg oherwydd y byddai'r camau a oedd wedi eu sefydlu'n barod yn dileu BSE o'r fuches.

5.11 Yr oedd modd olrhain gwartheg Prydain yn llawn ond a oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn fodlon ag olrheinadwyedd cig eidion a oedd yn cael ei fewnforio?

- dywedodd Joy Whinney ei bod yn anodd asesu effeithiolrwydd rheolyddion ar gig a oedd yn cael ei fewnforio ond yr oedd profion, y gwnaethpwyd mwy ohonynt yn ddiweddar, wedi dangos lefel gydymffurfiant uchel. Yr oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn awyddus i weld gwell labeli yn dangos o ba wlad yr oedd cig eidion yn dod. Yr oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd hefyd yn awyddus i weld gwelliannau yng ngweithrediad y system pasportau gwartheg yn y DG.

5.12 Croesewid y datganiad o Frwsel ar reolyddion BSE yn Ewrop ond yr oedd y broses o'u sefydlu wedi cymryd llawer gormod o amser. Yr oedd angen gwneud rhywbeth er mwyn sicrhau nad oedd cig eidion wedi ei brosesu yn Ewrop cyn y gwaharddiad ar wartheg dros 30 mis oed yn ymuno â'r gadwyn fwyd ddynol ym Mhrydain.

- dywedodd y Gweinidog fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi ei sefydlu er mwyn delio gyda materion yn ymwneud â diogelwch bwyd. Ei chyngor annibynnol oedd nad oedd angen gwahardd mewnforio cig eidion. Ni fyddai o fudd i Brydain ddechrau rhyfel masnach, a pha un bynnag, ni fyddai profion ar gig eidion o Ewrop a oedd yn cael ei gludo ym Mhrydain yn ymarferol. Yr oedd BSE yn broblem Ewropeaidd ac yr oedd angen dull gweithredu wedi ei gyd-drefnu;
- dywedodd Joy Whinney fod yn rhaid i unrhyw weithredu fod yn gymesur â'r risg a dangosodd dabl (y gwelir copi ohono yn atodiad 1) a oedd yn cymharu nifer yr achosion o BSE yn Ffrainc ac

yn y DG. Yr oedd yn rhaid i'r cyngor a ddarperid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol.

*Pwyntiau gweithredu*

5.13 Crynodeb o ganlyniad yr ymchwil i TSE i'w ddarparu, gan gynnwys profion ar gyfer cig wedi ei adfer yn fecanyddol, pan fydd wedi ei gwblhau (Ceir copiau o'r nodiadau a ddarparwyd yn atodiadau 3 a 4)**- Tony Edwards, Prif Swyddog Milfeddygol Cynorthwyol Cymru**

5.14 Nodyn i'w ddarparu ar waith ar heintusrwydd BSE mewn llaeth (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 2) **- Joy Whinney, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

**Eitem 6: Adroddiad yr Ombwdsmon** - ARD 18-00(p5)

6.1 Eglurodd y Cadeirydd fod y papur yn nodi'r trefniadau arfaethedig er mwyn delio gydag adroddiadau'r Ombwdsmon yn y dyfodol.

6.2 Croesawyd yr awgrym o adroddiad cryno blynyddol. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiadau am holl achosion yr Ombwdsmon ac i ddelio gyda hwy fel y nodwyd yn y papur.

**Eitem 7: Penodiadau cyhoeddus**

7.1 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Aelodau i ddelio gyda phenodiadau cyhoeddus.

7.2 Enwebwyd Glyn Davies gan Jocelyn Davies ac enwebwyd Delyth Evans gan Mick Bates. Ni chafwyd enwebiadau eraill a chytunodd y Pwyllgor ar yr enwebiadau.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol** - ARD 17-00(min)

8.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 22 Tachwedd.

Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd penderfyniad wedi ei wneud yngln â chyfreithlondeb y cnwd arbrofol a addaswyd yn enetig yn Sir y Fflint, a oedd y llifogydd diweddar wedi golygu na ellid difrodi'r cnwd ac a oedd hyn wedi arwain at lygredd. Atgoffawyd ef ei fod wedi addo ysgrifennu yngln â'r materion hyn ond nad oedd unrhyw lythyr wedi ei dderbyn eto. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi ysgrifennu at Gyfeillion y Ddaear yn mynegi ei farn yngln â chyfreithlondeb y cnwd arbrofol ond bod y mater yn dal heb ei ddatrys. Yr oedd y gwaith o ddifrodi'r cnwd wedi ei ddal yn ôl oherwydd y llifogydd ond disgwyliai y byddai'r mater wedi ei ddatrys erbyn y cyfarfod nesaf.

**Ysgrifenyddiaeth** **Rhagfyr 2000**

Atodiad 1

**BSE Cases per Million Cattle**

| | Northern Ireland | Scotland | England | Wales | Republic of Ireland* | France |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BSE cases January to October 2000 | 14 | 27 | 952 | 75 | 57 | 91 |
| Cattle population (million) | 1.77 | 2.1 | 6.35 | 1.05 | 6.99 | 21 |
| No. cattle more than 24 months old (million) | 0.74 | 0.9 | 3.8 | 0.6 | 3.5 | 11.04 |
| BSE cases per million cattle over 24 months old | 19 | 30 | 250.5 | 125 | 16.3 | 8.24 |

* Figures relate to January to August 2000

---

**Atodiad 2**

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y'i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Nodyn gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru**

**BOVINE SPONGIFORM ENCEPHALOPATHY (BSE) IN MILK - POSITION PAPER**

1. As stated in the recently published BSE Controls Review report (1) there is no evidence, currently, that BSE can be transmitted by milk. Milk for human consumption is therefore allowed to be produced from cows (other than BSE suspects) regardless of age, and it is considered to present no risk to consumers.

2. The evidence on which this advice is based comes both from laboratory research on mice and from field studies of naturally-infected BSE herds. In the early 1990s mice were fed large volumes of milk

from BSE-infected cows (2): no infection was detected. A couple of years later a survey by MAFF's Epidemiology Unit (3) looked at the offspring of BSE-infected dams that had suckled them for at least a month - again, no cases were recorded.

3. Although there is overwhelming evidence that milk-borne transmission of the disease does not occur the Food Standards Agency is continuing to finance studies into this. A team at the Veterinary Laboratories Agency has submitted proposals for a project in which milk will be collected from experimentally-infected cattle: both high and low doses of BSE will be used, and collection will continue throughout lactation. The milk will then be fractionated. In particular, this will separate out the leucocytes. Tests will be carried out on the various fractions, to determine whether prions can be detected - and if so, in which fraction or fractions. Work is likely to commence within the next few weeks.

4. The project is expected to support current beliefs, that there is no transmission of BSE prions in milk. However, should this not be the case further work would be planned at that time to investigate what (if any) effects processing might have on transmission, including possible variations between skimmed, semi-skimmed and whole milk.

5. Meanwhile, milk continues to be a safe, nutritious foodstuff, and its known benefits far outweigh any theoretical and infinitesimal risks from BSE.

Notes

(1) Review of BSE Controls, December 2000. London: Food Standards Agency.
(2) Taylor DM *et al*, Absence of disease in mice receiving milk from cows with bovine spongiform encephalopathy. Veterinary Record **136**, 592 (1995).
(3) Wilesmith JW *et al*, Absence of BSE in the offspring of pedigree suckler cows affected by BSE in Great Britain. Veterinary Record **141**, 250-251 (1997).

M C Dragon
Agricultural Branch
4 January, 2001

---

**Atodiad 3**

## PRAWF AM GIG A ADFERWYD YN FECANYDDOL

## (MECHANICALLY RECOVERED MEAT)

Mae’r prawf sy’n cael ei ddatblygu i ganfod presenoldeb cig a adferwyd yn fecanyddol wedi ei seilio ar enyn penodol yn y strand DNA. Gall y genyn fod wedi ei switsio ‘ymlaen’ neu ‘i ffwrdd’. Os yw’r genyn yn bresennol ac ‘ymlaen’ yna mae’n rhaid bod meinwe niwrol yn bresennol yn y cig. Mae’r gwaith diweddaraf yn edrych ar faint o feinwe niwrol sy’n gorfod bod yn bresennol er mwyn i’r prawf ei ganfod. Felly mae canfod cig a adferwyd yn fecanyddol yn dibynnu ar ganfod meinwe niwrol yn y cig.

**WA EDWARDS**

**Prif Swyddog Milfeddygol Cynorthwyol, Cymru**

---

**Atodiad 4**

## CRYNODEB O’R YMCHWIL I SPONGIFORM ENCEPHALOPATHY TROSGLWYDDADWY (TSE)

Ers y diagnosis cyntaf o’r clefyd y gwartheg gwallgo (BSE) mae Llywodraeth Prydain wedi gwario dros £140 miliwn ar waith ymchwil i BSE a TSE. O’r arian hwn, cafodd £76 miliwn ei wario gan yr Adran Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) ar bron i 200 o wahanol brosiectau. Yn anochel mae’r gwaith ymchwil TSE yn anodd ac araf gan nad oes un cyfrwng heintio penodol wedi ei nodi ac nid oes unrhyw ymateb imwnolegol canfyddadwy gan y cyfrwng lletyol – dau ragamod arferol ar gyfer cadarnhau clefyd heintus. Ffactor arall sy’n dylanwadu ar gynnydd y gwaith ymchwil yw’r cyfnod heintus hir iawn ar gyfer clefydau o’r fath.

Gellir rhannu rhaglen MAFF yn bedwar brif categori:

- Epidemoleg – cadarnhau tarddle’r clefyd a dilyn trywydd yr epidemig.
- Pathogenesis a natur y cyfrwng – astudio mecanweithiau’r clefyd.
- Diagnosis – gwaith ymchwil i wella’r diagnosis i’r cyfrwng BSE.
- Trosglwyddo – nodi’r duliau trosglwyddo a pha rywogaethau sy’n agored i neu’n debygol o gael y clefyd.

Hefyd mae rhaglen bwysig sy’n edrych ar Scrapie a’r posibilrwydd o drosglwyddo BSE i ddefaid yn mynd rhagddi. Mae astudiaethau wedi dangos eisoes y gall defaid gael eu heintio â BSE o dan amodau

arbrawf trwy chwistrelliad i’r ymennydd neu eu bwydo â deunydd o ymennydd gwartheg sydd wedi eu heintio â BSE clinigol. Mae MAFF yn ymgymryd â gwaith ymchwil allweddol ar astudio BSE arbrofol a Scrapie mewn defaid. Mae’r rhaglen yn cynnwys edrych am bresenoldeb BSE yn y Ddiadell Genedlaethol, astudiaethau trosglwyddiad, datblygu profion diagnostig, epidemoleg TSE mewn defaid a rôl geneteg lletyol wrth wrthsefyll Scrapie. Sefydlwyd diadell o ddefaid bridio sy’n rhydd o Scrapie o anifeiliaid a fewnforwyd o Seland Newydd. Aethpwyd i’r ffynhonnell yma gan nad oes unrhyw achosion o Scrapie yn Seland Newydd ac maent yn cael eu defnyddio yn helaeth yn yr astudiaeth hon ac astudiaethau eraill.

Gan droi at brofion byw, mae MAFF yn ariannu nifer o brosiectau ar hyn o bryd sy’n ceisio nodi a diffinio dynodwyr clefyd penodol y gellid eu defnyddio i ganfod a gwneud diagnosis o BSE. Mae’r rhain yn cynnwys archwilio a chynnal profion ar yr wrin a chyfryngau eraill fel y gwaed a hylifau’r asgwrn cefn. Fodd bynnag, er mwyn i brawf fod yn effeithiol mae’n rhaid iddo fod yn un penodol iawn ar gyfer BSE ac yn ddigon sensitif i ganfod y lefelau heintiad cyn datblygiad y clefyd clinigol. Ni lwyddwyd i wneud hyn eto ond mae’r ymdrechion yn parhau i geisio nodi dynodwyr posibl. Ar hyn o bryd mae prawf gwaed yn cael ei ddatblygu sy’n argoeli’n addawol iawn, ond mae’r arbenigwyr yn cydnabod y gellid bod angen dwy flynedd o waith datblygu pellach cyn ei fod yn ddigon dibynadwy i’w ddefnyddio fel prawf diagnostig gydag anifeiliaid byw.

Yn olaf, mae gwefannau MAFF a’r Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC) yn cynnwys llawer iawn o wybodeath am y rhaglenni ymchwil yn y maes yma a maent yn cael eu diweddaru’n gyson i adlewyrchu’r sefyllfa ddiweddaraf.

**WA EDWARDS**

**Prif Swyddog Milfeddygol Cynorthwyol Cymru**